**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Siopau Bach: Cyfarfod cyffredinol blynyddol**

**Dydd Llun 11 Rhagfyr 2023, 15:00 – 15:30 Microsoft Teams (Ar-lein)**

**COFNODION**

**YN BRESENNOL:**

| Enw | Sefydliad | Cofnodion |
|---|---|---|
| Edward Woodall | Y Gymdeithas Siopau Cyfleustra (ACS) | EW |
| Daniel Askew | Y Gymdeithas Siopau Cyfleustra (ACS) | DA |
| Russell George | AS dros Sir Drefaldwyn | RG |
| Mark Isherwood AS | AS yn cynrychioli Gogledd Cymru | MI |
| Vikki Howells | AS dros Gwm Cynon | VH |
| Ryland Doyle | Aelod o staff cymorth Mike Hedges AS | RD |
| Robin Lewis | Aelod o staff cymorth Vikki Howells AS | RL |

1. **Ymddiheuriadau**

Sioned Williams AS

Peredur Owen Griffiths AS

Joyce Watson AS

2. **Croeso a chyflwyniadau**

Croesawodd VH y rhai a oedd yn bresennol, gan amlinellu’r rhaglen weithgareddau ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol.

3. **Adolygiad o'r Adroddiad Blynyddol**

Cafwyd adolygiad o adroddiad blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol gan VH, a CHYTUNODD yr aelodau ar ei weithgarwch datganedig.

4. **Enwebu ac ethol swyddogion**

Cafodd VH ei henwebu i barhau fel Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol, a CHYTUNODD yr aelodau ar yr enwebiad hwnnw. Bydd VH yn parhau i weithredu fel Cadeirydd y Grŵp.

Cafodd RG ei enwebu i barhau fel Is-gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol, a CHYTUNODD yr aelodau ar yr enwebiad hwnnw. Bydd RG yn parhau i weithredu fel Is-gadeirydd y Grŵp.

Cafodd DA ei enwebu i barhau fel Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol, a CHYTUNODD yr aelodau ar yr enwebiad hwnnw. Bydd DA yn parhau i weithredu fel Ysgrifennydd y Grŵp.

5. **Adolygiad o Weithgarwch y Grŵp a’i Flaenraglen Waith ar gyfer 2024**

Cafwyd adolygiad gan EW o weithgarwch y grŵp dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys gwaith y grŵp i godi ymwybyddiaeth ynghylch goblygiadau gweithredol y Cynllun Dychwelyd Ernes (DRS) i siopau lleol, a'r materion allweddol y dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth iddynt.

Amlinellodd EW weithgarwch arfaethedig y grŵp ar gyfer 2024, a fydd yn seiliedig ar faterion amserol, sef troseddau ym maes manwerthu, y Cynllun Dychwelyd Ernes, a mynediad at arian parod.

## 6. Sylwadau i gloi

Rhoddodd VH grynodeb o'r cyfarfod a diolchodd i bawb am fod yn bresennol.